Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

tai@sirddinbych.gov.uk
01824 706000




# Diweddariad Cymunedol

**Annwyl Breswylydd,** **Hydref 2022**

**Llwyn Eirin – cartrefi newydd ar dir wrth ymyl Tan y Sgubor, Dinbych – Diweddariad yr Hydref**

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i ni ddechrau codi 22 o dai cyngor newydd gyda rhent cymdeithasol ar dir wrth ymyl Tan y Sgubor, Dinbych. Mae ein prif gontractwr, Brenig Construction, yn gwneud cynnydd da ar y safle a hoffem rannu'r hyn sydd wedi cael ei wneud a'r cynlluniau ar gyfer y misoedd nesaf.

**Yn ystod y misoedd diwethaf:**

- Rydym ni wedi cyrraedd camau olaf y gwaith ar y safle
- Rydym ni wedi dechrau addurno tu mewn i'r tai, ac wedi gwneud y gosodiadau terfynol
- Mae'r sgaffaldau wedi'u tynnu oddi ar rai o'r tai
- Mae gwaith wedi dechrau ar y rhodfeydd, y llwybrau a'r patios

**Gwaith yn ystod y misoedd nesaf:**
Yn ystod y misoedd nesaf gallwch ddisgwyl gweld:

- Goleuadau traffig ar waith ger mynedfa'r safle, o dechrau Hydref am oddeutu tair wythnos.
- Rydym ni'n gosod y brif ddraen yn y ffordd ac yn gosod cyrbau ger mynedfa'r safle.
- Hoffem ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a achosir gan hyn.

Rydym ni'n gobeithio gorffen y prosiect erbyn diwedd mis IOnawr, ac yn gobeithio y bydd y tenantiaid newydd yn symud i mewn mis Mawrth 2023.

I dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect ewch i https://www.taisirddinbych.co.uk/LlwynEirin/ neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

- Facebook: @TaiSirDdinbych neu @DenbighshireHousing
- Twitter: @TaiSirDdinbych neu @DenbighshireHou

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, cysylltwch â thîm Brenig ar 01492 514934.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus gyda'r prosiect hwn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government